# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Carwyn Elias Jones**
**Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Seiriol**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

**Pencampwr Amrywiaeth**
Rwy'n Bencampwr Amrywiaeth Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cyngor Llawn, Panel Penodi, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** – Rwyf wedi siarad ar sawl pwnc yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, gan gynnwys y gyllideb. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ymdrin â phrosiectau allanol ac mae'r Panel Penodi yn gyfrifol am recriwtio a phenodi unigolion i swyddi uwch.

| **Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 6 (67%) |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 8 (89%) |
| Pwyllgor Penodiadau | Dim cyfarfodydd |
| Is-bwyllgor Indemniadau | Dim cyfarfodydd |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn yn unig. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau – fel aelod portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (nad yw'n gyfarfod o'r Cyngor) ac wedi mynychu 2 gyfarfod (50%). Mynychais hefyd 2 gyfarfod (100%) or Pwyllgor Adfywio (is-bwyllgor o'r Ymddiriedolaeth sydd yn ymwneud â grantiau)

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

**Cynghorau Cymuned** – Defnyddir rota Ward Seiriol i fynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned yn Llanddona, Cwm Cadnant a Llangoed, a hefyd i fynychu ac adrodd yn ôl i Gyngor Tref Biwmares.

**Wynebau Ffyrdd a Thyllau yn y Ffyrdd** – Wedi gwthio am welliannau i wynebau ffyrdd, gyda gwaith ail-wynebu sylweddol wedi'i wneud mewn gwahanol rannau o'r ward a nifer o dyllau yn y ffordd wedi'u trwsio ar hyd amrywiol lonydd.

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**Tai** – Ymdriniwyd ā materion tai ar ran etholwyr o ran gofal a gwaith cynnal a chadw ac i helpu gyda cheisiadau am dai cymdeithasol.

**Mynwent newydd Llaniestyn / Llanddona** – Un uchafbwynt allweddol i mi oedd gweld prosiect a oedd wedi bod ar y gweill ers 4 blynedd ac a oedd yn cynnwys y gorchymyn prynu gorfodol cyntaf erioed i Gyngor Ynys Môn yn cael ei gwblhau a'i drosglwyddo i Gyngor Cymuned Llanddona. Cysegrwyd y fynwent yn swyddogol gan Esgob Bangor.

**Cynllun Amddiffyn rhag Llifogydd ym Miwmares** – Gweithiais yn galed gyda fy nghyd-Gynghorwyr a Swyddogion y Cyngor i sicrhau gwaith amddiffyn rhag llifogydd a oedd yn werth £1.2m ar gyfer Tref Biwmares. Fel y gwŷr llawer o'r trigolion, gall llifogydd gael effaith drychinebus ac 'roeddem wrth ein boddau ein bod wedi llwyddo i sicrhau'r arian hwn ac o weld y gwaith a chael sylwadau am y gwahaniaeth y mae wedi ei wneud yn dilyn stormydd.

**Posteri Baw Cŵn** – Gan weithio gyda Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r ysgol yn Llandegfan, sefydlwyd cystadleuaeth i greu poster codi baw cŵn. Dewiswyd dau enillydd ac yna cafodd y posteri eu cynhyrchu'n broffesiynol ar blatiau a'u harddangos ar draws Llansadwrn a Llandegfan.

**Ardal Chwarae a Phicnic Llanfaes** – Prosiect arall a lwyddodd i ddwyn ffrwyth oedd helpu Llanfaes gyda cheisiadau grant i greu ardal bicnic newydd braf gyda photiau blodau a dwy siglen newydd i'r plant.

**Clwb Sadwrn** – Ers colli'r neuadd bentref ni fu gan Lansadwrn fan cyfarfod. Mae sefydlu Clwb Sadwrn, sy'n cyfarfod ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mhob mis, wedi bod yn ardderchog ar gyfer y pentref a chafwyd grant ar gyfer ward Seiriol a fydd, gyda gobaith, yn sicrhau y bydd y grŵp hwn yn mynd o nerth i nerth.

**Digwyddiadau Lleol** – Rwy'n gwneud fy ngorau i fynychu a chefnogi cynifer o ddigwyddiadau lleol â phosib yn y ward.

**Parcio ger Ysgol Llandegfan** – Yn dilyn nifer o gwynion a phryderon, gwnaed cryn ymdrech gan yr holl ran-ddeiliaid i geisio gwella'r sefyllfa ger yr ysgol. Mae'r Adran Briffyrdd wedi helpu gyda nifer o fentrau i liniaru rhai o'r materion.

**Croeso i Ynys Môn** – Un ymgyrch gen i eleni oedd un i godi arwydd Croeso i Ynys Môn y gall modurwyr ei weld wrth gyrraedd yr Ynys wrth deithio dros Bont Britannia. Llwyddodd y gwaith a wnaed ar yr ymgyrch hon i ddwyn ffrwyth a chodwyd arwydd newydd a oedd hefyd yn cynnwys neges Cartref Eisteddfod Genedlaethol 2017.

**Clwb Ieuenctid Llandegfan** – Sefais ysgwydd wrth ysgwydd gyda'r bobl ifanc sy'n mynychu'r clwb ieuenctid yn Llandegfan i ymgyrchu i gadw'r clwb yn agored yn y pentref gan ei fod yn adnodd hollbwysig.

**Traeth Glân Biwmares** – trefnwyd a chynhaliwyd sesiwn lwyddiannus i lanhau'r traeth ym Miwmares a chasglwyd y gwastraff gan Gyngor Sir Ynys Môn.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

**Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol David Hughes** – wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y corff llawn a'r is-bwyllgor cyllid a phersonél.

**Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Llandegfan** – wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y corff llawn a'r is-bwyllgor cyllid a phersonél.

**Pobl Seiriol**
Mynychais gyfarfodydd Pobl Seiriol trwy'r flwyddyn i drafod ac edrych ar ffyrdd o helpu Ward Seiriol yn y dyfodol. Roeddem hefyd wedi gallu dyfarnu hyd at £10,000 ar gyfer prosiectau lleol a gyflwynwyd trwy bob cyngor cymuned.

**4 - Dysgu a Datblygu**

| | |
|---|---|
| Cyfraith Cyflogaeth | 10/11/2016 |
| Sesiynau Briffio i Aelodau ( 9 allan o 23 = 39%) | Ebrill 2016 – Mawrth 2017 |

Rwyf hefyd yn gweithio fel Darlithydd Busnes ac ‘rwy’n diweddaru fy ngwybodaeth yn barhaus ac yn cadw i fyny gyda deddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth newydd.

Rwyf hefyd wedi mynychu tair sesiwn friffio ar gyfer Aelodau Etholedig yng Nghyngor Sir Ynys Môn sy’n darparu gwybodaeth allweddol am wahanol agweddau ar fusnes y Cyngor a’i wasanaethau allweddol.

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwyf wedi mwynhau’r 12 mis diwethaf fel Cynghorydd ac mae helpu eraill a helpu fy Ynys yn rhoi boddhad personol mawr i mi. Rwyf yn angerddol am fy ward ac yn gwneud fy ngorau glas i'r ardal ac yn rhoi popeth sydd gennyf i'r rôl. Y brif her i mi yw cydbwyso galwadau fy rôl fel Cynghorydd gyda fy ngwaith fel darlithydd Astudiaethau Busnes a fy mywyd teuluol gyda fy nhri o blant ifanc a’m gwraig.

Byddaf nawr yn agosáu at fy mhumed blwyddyn fel aelod etholedig gyda brwdfrydedd a chan gredu y gallwn, fel Awdurdod Lleol a Chynghorwyr, wneud rhagor o gynnydd a helpu mwy o bobl.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=295&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones** | **Ebrill 2017** |